POLISI GRŴP TAI WALES & WEST

# Polisi Cyflogaeth Foesegol

| MANYLION RHEOLI Y DDOGFEN | |
|---|---|
| **Perchennog y Polisi** | *Cyfarwyddwr Gweithredol - Strategaeth Gorfforaethol a Gwasanaethau* |
| **Dyddiad Llunio'r Polisi** | *2019* |
| **Cymeradwywr** | |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf** | *Mawrth 2027* |
| **Adolygwr** | *Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol* |
| **Dyddiad Diweddaru Diwethaf** | *Mawrth 2026* |
| | |

## 1. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn disgrifio dull Tai Wales & West (TWW) o ymdrin â Chyflogaeth Foesegol. Mae'r polisi'n berthnasol i TWW ac i is-gwmnïau TWW i'r graddau eu bod yn rhan o gadwyn gyflenwi TWW.

Yn 2017, lansiodd Llywodraeth Cymru Gôd Ymarfer ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Disgwylir i sefydliadau sy'n derbyn arian cyhoeddus Cymru, gan gynnwys cymdeithasau tai sy'n derbyn grant tai cymdeithasol, gofrestru i'r Côd. Pwrpas y Côd yw cefnogi datblygiad cadwyni cyflenwi mwy moesegol i gyflawni contractau ac fe'i cynlluniwyd i sicrhau bod gweithwyr yn y cadwyni cyflenwi hyn yn cael eu cyflogi'n deg ac yn foesegol ac yn unol â deddfwriaeth y DU, yr UE a rhyngwladol. Disgwylir i sefydliadau gynhyrchu polisi ysgrifenedig ar gyflogaeth foesegol o fewn eu sefydliad eu hunain ac ar sut y bydd hyn yn berthnasol i'w cadwyni cyflenwi.

Adolygwyd a diweddarwyd y Côd yn 2025, gyda phwyslais cryfach ar Nodiadau Polisi Caffael Cymru (WPPNau), asesiad risg ac adolygiad gwariant, datganiadau tryloywder blynyddol, Cyflog Byw, a hyfforddiant ac atebolrwydd.

## 2. Gwerthoedd TWW

Mae ein gwerthoedd yn bwysig i ni ac yn ganolog i bopeth a wnawn fel sefydliad. Maent yn adlewyrchu ein diwylliant, y ffordd rydym yn gweithio gyda phreswylwyr a chyflenwyr, a'r

modd rydym yn trin ein staff, yn ogystal â'r ymddygiadau a ddisgwylir gan ein staff a'n prif egwyddorion arweiniol wrth gyflawni ein nod o sicrhau "twf cryf a chynaliadwy i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl, eu cartrefi a'u cymunedau".

- **Teg –** Cytbwys, gan roi clod a beirniadaeth adeiladol. Yn gynhwysol, gan barchu urddas ac unigolrwydd pawb.
- **Agored** - Yn barod i newid ac wedi ymrwymo i wella a dysgu. Tryloyw, gonest a dibynadwy
- **Cyfrifol** Proffesiynol, yn herio trefniadau presennol, yn cymryd cyfrifoldeb am faterion ac yn sicrhau bod pethau'n cael eu cwblhau.
- **Cefnogol** Hawdd gwneud â ni, yn hawdd dod atom, ac yn hygyrch. Croesawgar, gofalgar, yn gwrando ac yn ymatebol
- **Effeithlon** Gwneud y defnydd gorau o adnoddau er mwyn gwneud y mwyaf o effaith ein gweithgareddau.

## 3. Dull TWW o Gyflogaeth Foesegol

Mae TWW yn cefnogi'n llawn ddileu'r arferion anfoesegol a nodir yn y Côd Ymarfer, gan gynnwys:

- Caethwasiaeth Fodern a cham-drin hawliau dynol
- Rhestru Du
- Hunangyflogaeth ffug
- Defnydd annheg o gynlluniau ymbarél a chontractau dim oriau

Yn unol â'r Côd Ymarfer, mae TWW yn cefnogi:

- Talu'r Cyflog Byw fel y'i pennir gan Sefydliad y Cyflog Byw. Cyfradd awr wirfoddol yw hon sy'n seiliedig ar gost byw.

Yn ogystal â chydymffurfio â'r Côd Ymarfer o ran ei arferion cyflogaeth ei hun, mae TWW yn gweithredu ystod o arferion da i sicrhau dull teg a moesegol o recriwtio a chyflogaeth, gan gynnwys:

- Proffiliau rôl sy'n disgrifio swyddogaethau pob rôl
- Hysbysebu priodol ar gyfer rolau er mwyn sicrhau mynediad teg
- Gweithdrefn recriwtio sy'n cynnwys gwiriadau cyn-gyflogaeth, gyda recriwtwyr wedi'u hyfforddi
- Defnyddio asiantaethau recriwtio mewn amgylchiadau cyfyngedig yn unig
- Telerau ac amodau ysgrifenedig
- Graddfeydd a chyfraddau cyflog sy'n cael eu hasesu'n annibynnol neu drwy ddefnyddio cynllun gwerthuso swyddi

- Ystod o bolisïau a gweithdrefnau sy'n cwmpasu pob agwedd ar gyflogaeth ac sydd ar gael i bob aelod o staff, er enghraifft, polisi Chwythu'r Chwiban a pholisi ydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Polisïau a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch i ddiogelu staff TWW yn y gweithle
- Cymorth drwy raglen cymorth i weithwyr a gwasanaeth cwnsela, ynghyd â budd cynllun arian parod iechyd

## 4. I bwy mae'r polisi hwn yn berthnasol?

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r meysydd canlynol:

- Y dull cyffredinol y mae TWW yn ei fabwysiadu yn ei fusnes o ddydd i ddydd,
- Recriwtio, cyflogi a hyfforddi staff gan TWW.

## 5. Beth mae hyn yn ei olygu i gadwyn gyflenwi TWW?

Lle bynnag y bo'n rhesymol ymarferol, bydd TWW ond yn masnachu gyda'r rhai sy'n cydymffurfio â'r Cod Ymarfer neu'r rhai sy'n dangos eu bod yn cymryd camau tuag at gydymffurfio. Bydd TWW yn annog cyflenwyr i hyrwyddo ein hymrwymiad i'r Cod Ymarfer ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi sy'n cynnwys isgontractwyr.

## 6 . Gweithredu'r Polisi Cyflogaeth Foesegol

- Byddwn yn cyhoeddi'r Polisi Cyflogaeth Foesegol yn fewnol ac yn allanol. Byddwn yn cynnal hyfforddiant i gefnogi'r polisi lle bo angen.
- Rydym wedi adolygu ein Polisi Chwythu'r Chwiban fel ei fod hefyd yn darparu mecanwaith i bobl y tu allan i Dai Wales & West (TWW) godi pryderon ynghylch arferion cyflogaeth anghyfreithlon neu anfoesegol. Caiff y polisi ei gyhoeddi yn fewnol ac yn allanol, a'i adolygu'n flynyddol.
- Yn unol â gofynion Adran 54 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015, byddwn yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi Datganiad Caethwasiaeth Fodern flynyddol yn amlinellu'r mesurau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn
- Byddwn yn hyrwyddo ein Polisi Cyflogaeth Foesegol fel rhan o'n proses gaffael ac yn sicrhau bod arferion cyflogaeth yn cael eu hystyried.
- Byddwn yn gweithio gyda chyflenwyr yn unol â'n gwerthoedd ac yn parhau i hyrwyddo Côd Talu'n Brydlon TWW.
- Byddwn yn parhau i fod yn gyflogwr Cyflog Byw achredig gan Sefydliad y Cyflog Byw, ac yn hyrwyddo ac annog pob contractwr i fabwysiadu'r un dull.
- Byddwn yn parhau, lle bo modd, i gaffael yn lleol ac yn foesegol.
- Byddwn yn ymdrechu i greu cyfleoedd i gadw'r bunt yng Nghymru o fewn Cymru
- Byddwn yn adolygu ein gwariant ac yn cynnal asesiad risg i nodi cynhyrchion a gwasanaethau lle mae risg o gaethwasiaeth fodern neu arferion cyflogaeth anghyfreithlon neu anfoesegol o fewn y DU a thramor.
- Byddwn yn cyhoeddi datganiad blynyddol, a gymeradwyir gan y Bwrdd, yn amlinellu'r camau a gymerwyd i atal caethwasiaeth fodern a chyflogaeth anfoesegol o fewn y

sefydliad a'i gadwyni cyflenwi, a sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd — yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern lle bo hynny'n berthnasol.

- Byddwn yn sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â chaffael, recriwtio, neu leoli gweithwyr yn derbyn ac yn cwblhau hyfforddiant ar gaethwasiaeth fodern ac arferion cyflogaeth foesegol, gyda chofnodion yn cael eu cadw ac adnoddau'n cael eu darparu i gefnogi cydymffurfiaeth.

## 7. Adolygiad

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol